ACADEMI GWELLIANT CYMRU IMPROVEMENT CYMRU ACADEMY

GIG CYMRU NHS WALES

# Academi Gwelliant Cymru Canllaw Pecyn Cymorth



# Cydgynhyrchu

## Beth yw Cydgynhyrchu?

Mae cydgynhyrchu yn gweithio ar y cyd â darparu gwasanaethau cyhoeddus gyda phobl yn hytrach nag iddynt hwy, gan alluogi unigolion i ddod yn asiantau dros newid effeithiol. Cydgynhyrchu yw'r sail ar gyfer ffurfio perthynas gyfartal rhwng gweithwyr proffesiynol, y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd, a'u gofalwyr. Mae cydgynhyrchu yn cydnabod cyfraniad unigolion at greu cyfleoedd iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy. Mae cydgynhyrchu yn chwalu rhwystrau rhwng defnyddwyr gwasanaeth a staff, yn adeiladu ar allu presennol unigolion ac yn adeiladu ar y cysyniadau o ddwyochredd a chydfuddiannau sy'n golygu bod unigolion yn cael rhywbeth yn ôl am yr ymdrech a wnânt, gyda phawb yn cydweithio i gyflawni nod a rennir.

Dyma ddiffiniad defnyddiol gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru: 'Mae cydgynhyrchu yn ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau tuag at wasanaethau cyhoeddus sy'n galluogi pobl sy'n darparu ac yn derbyn gwasanaethau i rannu pŵer a chyfrifoldeb. Yn ogystal, mae'n galluogi pobl i weithio gyda'i gilydd mewn perthynas gyfartal, ddwyochrog a gofalgar. Mae'n creu cyfleoedd i bobl gael cymorth pan fydd ei angen arnynt, ac i gyfrannu at newid cymdeithasol'.

## Rhesymeg

Deddf Gofal 2014 yw un o'r deddfwriaethau cyntaf yn y DU i gynnwys y cysyniad o gydgynhyrchu fel rhan o ganllawiau statudol ac mae cydgynhyrchu yn un o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi 'Dylai awdurdodau lleol, lle bo'n bosibl, hyrwyddo cyfranogiad yn weithredol wrth ddarparu ymyriadau sy'n cael eu cydgynhyrchu ag unigolion, teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr, a'r gymuned. ''Cydgynhyrchu'' yw pan fydd unigolyn yn dylanwadu ar y cymorth a'r gwasanaethau a dderbynnir, neu pan fydd grwpiau o bobl yn dod at ei gilydd i ddylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio, eu comisiynu a'u darparu.' Er bod y diffiniad hwn yn cyfeirio at ddylanwadu ar gymorth a gwasanaethau, mae cydgynhyrchu yn cyfeirio at wneud gyda – mewn partneriaeth gyfartal a ddwyochrog, gwneud dros – ymgysylltu a chynnwys pobl a gwneud i – ceisio trwsio pobl sy'n dderbynwyr goddefol o wasanaeth. Mae cydgynhyrchu yn canolbwyntio ar y dull gorau o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar

yr unigolyn yn y gymuned, ar asedau unigolion a'r ffordd orau o gefnogi claf/unigolyn neu sefydliad. Mae'n golygu bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn deall anghenion cleifion ac yn ymgysylltu â nhw wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae'n ddull cadarnhaol ac yn canolbwyntio ar gryfderau cleifion yn hytrach na'u cyfyngiadau.

## Pryd i ddefnyddio Cydgynhyrchu?

Mae cydgynhyrchu ar draws y GIG yn cyfeirio at gynnwys cleifion, eu teuluoedd, a chymunedau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd. Fe'i defnyddir mewn sefyllfaoedd lle mae darparwyr gofal iechyd yn cydnabod bod angen iddynt weithio mewn partneriaeth â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu a darparu gofal effeithiol o ansawdd.

Gellir defnyddio cydgynhyrchu mewn lleoliadau gofal iechyd amrywiol, megis wrth:

- Ddatblygu polisïau a/neu wasanaethau gofal iechyd
- Ailgynllunio gwasanaethau
- Darparu gofal

Er enghraifft, gellir ei ddefnyddio i wneud y canlynol:

1. **Gwella** dyluniad gwasanaethau gofal iechyd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cleifion a'u teuluoedd.

2. **Annog** cleifion a defnyddwyr gwasanaeth i gymryd mwy o ran yn eu gofal, gan gydnabod eu gwybodaeth a'u profiad o'u sefyllfa neu gyflwr personol.

3. **Datblygu** polisïau gofal iechyd sy'n adlewyrchu barn a phrofiadau cleifion a chymunedau.

4. **Grymuso** cymunedau a grwpiau cleifion i ddatblygu eu gwasanaethau a'u mentrau gofal iechyd eu hunain.

Ar y cyfan, defnyddir cydgynhyrchu pan gydnabyddir y gall cynnwys cleifion a chymunedau yn y broses o wneud penderfyniadau gofal iechyd arwain at ganlyniadau gwell i bawb dan sylw.



## Manteision Cydgynhyrchu

Mae cydgynhyrchu yn seiliedig ar y cysyniad mai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau yw'r bobl orau i awgrymu ffyrdd gwell o gydweithio. Mae ymchwil gref i awgrymu bod cymryd rhan mewn cydgynhyrchu yn dod â chyfoeth o fanteision i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol (Mockford et al, 2012).

- Mwy o ymgysylltu a chyfalaf cymdeithasol
- Grymuso a pherchnogaeth wirioneddol
- Gwell iechyd a llesiant
- Cymunedau cryfach, mwy cydlynol
- Gwasanaethau mwy perthnasol ac effeithiol
- Cynaliadwy a gwerth am arian

## Sut i ddefnyddio Cydgynhyrchu?

Mae cydgynhyrchu ym maes gofal iechyd yn golygu gweithio mewn partneriaeth â chleifion, eu teuluoedd, a chymunedau i ddylunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd. Er mwyn i gydgynhyrchu ddod yn rhan annatod o’n harferion gwaith bydd angen i ni greu diwylliant o ymddygiadau a gwerthoedd cadarnhaol i ddarparu sylfaen i gydgynhyrchu ffynnu.

Mae angen diwylliant o berchnogaeth, dealltwriaeth a rennir, didwylledd, tryloywder, ymrwymiad, cyfathrebu clir, a pharch at gleifion a staff fel ei gilydd. Efallai y bydd angen newid diwylliant i fynd ar drywydd cydgynhyrchu ac mae cefnogaeth timau rheoli yn hanfodol. Unwaith y bydd y diwylliant hwn wedi'i sefydlu, gallwn ddechrau gweithio tuag at gydgynhyrchu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dyma rai camau i'w dilyn wrth ddefnyddio cydgynhyrchu mewn gofal iechyd:

**Nodi eich amcanion**

Dechreuwch trwy nodi eich amcanion cydgynhyrchu. Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni drwy gynnwys cleifion a chymunedau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd? Gallai hyn fod yn unrhyw beth o wella boddhad cleifion i gynyddu effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd.

**Nodi eich rhanddeiliaid**

Nodi eich rhanddeiliaid a fydd yn cymryd rhan yn y broses gydgynhyrchu. Gallai hyn gynnwys cleifion, eu teuluoedd, darparwyr gofal iechyd ac arweinwyr cymunedol.

**Datblygu eich cynllun**

Datblygu cynllun ar gyfer sut y bydd y broses gydgynhyrchu yn cael ei chyflawni. Gallai hyn gynnwys sefydlu grŵp llywio neu gynnal grwpiau ffocws neu gyfweliadau â chleifion ac aelodau o'r gymuned, cynnal gweithdai neu ddigwyddiadau cydweithredol eraill.

**Ymgysylltu â'ch rhanddeiliaid**

Cynnwys eich rhanddeiliaid yn y broses gydgynhyrchu. Gallai hyn gynnwys estyn allan at grwpiau cleifion a chymunedol, darparwyr gofal iechyd, a phartïon eraill â diddordeb i gasglu mewnbwn ac adborth ar y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir ar eu cyfer.


**Cyd-ddylunio a chyd-gyflawni**

Cyd-ddylunio a chyd-gyflawni gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir. Cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau gofal iechyd sy'n diwallu anghenion cleifion a'u teuluoedd.

Ar y cyfan, mae cydgynhyrchu yn golygu gweithio ar y cyd â chleifion, eu teuluoedd, a chymunedau i ddylunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd sy'n diwallu eu

hanghenion. Drwy gynnwys rhanddeiliaid yn y broses, gall cydgynhyrchu helpu i wella boddhad cleifion, cynyddu effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, a sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy’n gynhwysol ac yn deg i bawb.

## Yr Ysgol Gydgynhyrchu




## Awgrymiadau defnyddiol

1. **Byddwch yn dryloyw ac yn gynhwysol**: Mae'n hanfodol bod yn dryloyw ac yn gynhwysol wrth weithredu cydgynhyrchu. Mae hyn yn golygu cynnwys cleifion, eu teuluoedd, a chymunedau ym mhob cam o’r broses gydgynhyrchu, o gynllunio i gyflenwi. Mae hefyd yn golygu bod yn agored ac yn onest am nodau cydgynhyrchu a’r rolau y bydd rhanddeiliaid yn eu chwarae yn y broses.

2. **Pwysleisio gwneud penderfyniadau ar y cyd**: Mae cydgynhyrchu yn ymwneud â gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae’n bwysig creu diwylliant o gydweithio a chynhwysiant, lle mae cleifion a’u teuluoedd yn cael eu hystyried yn bartneriaid cyfartal wrth ddylunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwerthfawrogi eu mewnbwn a'u

hadborth a'u grymuso i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gofal eu hunain.

3. **Mesur effaith a dathlu llwyddiant**: Gall cydgynhyrchu fod yn broses hir a heriol, ond mae’n hanfodol mesur effaith y broses gydgynhyrchu a dathlu ei llwyddiannau. Gall hyn helpu i adeiladu momentwm a chefnogaeth ar gyfer mentrau cydgynhyrchu yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod a dysgu o unrhyw heriau neu fethiannau a gafwyd yn ystod y broses, a defnyddio'r wybodaeth hon i wella ymdrechion yn y dyfodol.

## Adnoddau ychwanegol

Ewch i: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/academi-gwelliant-cymru/ neu anfonwch e-bost atom: improvementcymruacademy@wales.nhs.uk i gael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau gwella y gallwn eu cynnig.

## Darllen pellach

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru (Dim dyddiad). Beth yw Cydgynhyrchu? Cyrchwyd o: https://copronet.wales/home/coproduction/ (Cyrchwyd 02 Awst 2023)

Gwelliant Cymru (Chwefror 2023). Cydgynhyrchu (Is-deitlau Cymraeg). Cyrchwyd o: https://www.youtube.com/watch?v=u2qIIro_dek (Cyrchwyd 14 Ebrill 2023)

In conversation with Prof. Don Berwick and we coproduce about communities and healthcare systems. Cyrchwyd o: https://www.youtube.com/watch?v=iqUv2_Il4cI&t=5s (Cyrchwyd 02 Awst 2023)

Mockford, A.C., Staniszewska, S., Griffiths, F.D., Herron-Marx, S. (2012). The impact of patient and public involvement on UK NHS health care; a systemic review. International Journal of Quality in Healthcare. 21 (1), tt 28-38.

GIG Lloegr Knocking on the door: How we started with what matters to the community to transform care together. Cyrchwyd o: https://www.youtube.com/watch?v=zj0Av6u7PQ0 (Cyrchwyd 02 Awst 2023)

NHS England. Our co-production Journey. Cyrchwyd o: https://www.youtube.com/watch?v=Vo_1VQEjI3M (Cyrchwyd 02 Awst 2023)

NHS England. The World of Co-production and QI. Cyrchwyd o: https://www.youtube.com/watch?v=OpoWdyxAvYo (Cyrchwyd 02 Awst 2023)

Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (Gorffennaf 2022). Co-Production: What is it and how to do it. Cyrchwyd o: https://www.scie.org.uk/co-production/what-how#culture (Cyrchwyd 14 Ebrill 2023)

Llywodraeth y DU (2014). Deddf Gofal 2014. Cyrchwyd o: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/contents/enacted (Cyrchwyd 02 Awst 2023)